

Llywodraeth Cymru

Cynnig Lleoliad Prosiect Ymchwil mewn Ymarfer

Ymchwil Enwau Topograffig Cadw

Crynodeb o'r prosiect

Ffocws y prosiect yw ymchwilio i enwi topograffig yng Nghymru, gan roi sylw arbennig i sut mae enwau amgen, nad ydynt yn Gymraeg neu lafar yn dod i'r amlwg, yn cylchredeg, yn dod i ddefnydd cyffredin ac yn effeithio ar werth diwylliannol a dealltwriaeth o dirweddau Cymru. Bydd y prosiect yn archwilio ysgogwyr cymdeithasol, ieithyddol, hamdden, twristiaeth a digidol newid enwau, gan gynnwys rôl arweinlyfrau, arwyddion, cyfryngau, llwyfannau mapio, cyfryngau cymdeithasol a chymunedau awyr agored.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda swyddogion a rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru i adolygu'r dystiolaeth bresennol, nodi enghreifftiau o newid enwau topograffig, archwilio sut mae enwau'n cael eu defnyddio ar draws gwahanol gyd-destunau, a chefnogi'r gwaith o ddatblygu allbynnau ymchwil sy'n berthnasol i bolisi. Bydd y lleoliad yn rhoi cyfle i gymhwyso sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi byw, datblygu profiad mewn adolygu tystiolaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid a dadansoddi cymhwysol, a chyfrannu at ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru o sut y gellir diogelu enwau lleoedd Cymraeg a hanesyddol yn well.

Gwybodaeth am Leoliadau Ymchwil mewn Ymarfer Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru yw Llywodraeth ddatganoledig Cymru ac mae'n gyfrifol am yr economi, addysg, trafnidiaeth, iechyd a GIG Cymru, busnes, gwasanaethau cyhoeddus a'r amgylchedd yng Nghymru.

Mae lleoliad yn Llywodraeth Cymru yn gyfle unigryw i weithio ochr yn ochr â swyddogion polisi ac ymchwilwyr, gan gymhwyso eich sgiliau ymchwil mewn amgylchedd polisi byw. Cewch gyfle i ddatblygu ystod o sgiliau ymchwil tra'n dyfnhau eich dealltwriaeth o sut mae tystiolaeth yn llywio prosesau gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru.

Yn ystod cyfnod y lleoliad, byddwch yn gweithio ochr yn ochr ag aelodau o [broffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth](#). Mae Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn darparu cyngor dadansoddol uchel ei ansawdd a thystiolaeth annibynnol i lywio penderfyniadau allweddol ym maes polisi. Mae eu gwaith yn

cefnogi'r cylch polisi llawn—o ddeall a datblygu hyd at weithredu, monitro a gwerthuso. Bydd myfyrwyr ar leoliadau hefyd yn cyfrannu at ymdrechion ehangach i gefnogi cyd-weithwyr ym maes polisi i lywio a chyflawni polisi effeithiol.

Y Prosiect - Ymchwil Enwau Topograffig Cadw

Y Cefndir

Mewn partneriaeth ag Is-adran Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, mae Cadw yn archwilio sut y gellir deall, gwerthfawrogi a diogelu enwau lleoedd Cymraeg a hanesyddol yn well. Mae enwau lleoedd yn rhan bwysig o dreftadaeth ddiwylliannol Cymru, gan adlewyrchu iaith, hanes, hunaniaeth gymunedol a pherthnasoedd rhwng pobl a thirwedd. Maent yn aml yn cadw gwybodaeth am amgylcheddau lleol, digwyddiadau hanesyddol a phatrymau defnydd tir, gan ddarparu mewnwelediadau i sut mae lleoedd wedi cael eu deall a'u profi dros amser.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu diddordeb cynyddol mewn gwelededd a defnydd enwau lleoedd Cymraeg. Mae enghreifftiau fel Eryri, Yr Wyddfa a Bannau Brycheiniog wedi tynnu sylw at drafodaeth gyhoeddus ehangach am iaith, hunaniaeth a'r defnydd o enwau Cymraeg mewn bywyd bob dydd. Ar yr un pryd, mae pryderon wedi'u codi am ymddangosiad a defnydd cynyddol o enwau amgen ar gyfer nodweddion topograffig, yn enwedig mewn amgylcheddau twristiaeth, hamdden ac ar-lein. Mae rhai o'r enwau hyn yn gyfieithiadau o enwau Cymraeg presennol, tra bod eraill yn enwau cwbl newydd sydd wedi datblygu'n anffurfiol trwy arweinyfrau, cyfryngau cymdeithasol, cymwysiadau mapio a chymunedau hamdden awyr agored.

Yn ddiweddar, comisiynodd Cadw ymchwil sy'n archwilio newidiadau i enwau eiddo, enwau busnes ac enwau strydoedd Cymraeg. Er bod y gwaith hwn wedi sefydlu sylfaen dystiolaeth bwysig, nododd fwch sylweddol o ran deall sut mae enwau nodweddion tirweddau fel mynyddoedd, llynnoedd, dyffrynnoedd, clogwyni a nodweddion topograffig eraill yn cael eu defnyddio, eu rhannu a'u newid. Mae enwau topograffig wedi derbyn cymharol ychydig o sylw ymchwil er gwaethaf pryderon am amlygrwydd cynyddol arferion enwi amgen mewn rhai lleoliadau.

Bydd y lleoliad hwn yn ymchwilio i sut mae enwau amgen a newydd ar gyfer nodweddion topograffig yn dod i'r amlwg, yn cylchredeg ac yn sefydlu. Bydd yr ymchwil yn archwilio'r ffactorau cymdeithasol, ieithyddol, hamdden a digidol sy'n dylanwadu ar arferion enwi ac yn archwilio sut mae gwahanol gymunedau yn deall ac yn defnyddio enwau Cymraeg ac enwau amgen. Bydd sylw arbennig yn cael ei roi

i rôl hamdden awyr agored, twristiaeth, arwyddion, arweinlyfrau, llwyfannau mapio a'r cyfryngau cymdeithasol wrth lunio ymwybyddiaeth a defnydd enwau lleoedd.

Bydd y prosiect yn ceisio deall nid yn unig a yw arferion enwi yn newid, ond pam eu bod yn newid, pwy sy'n gyrru'r newidiadau hynny, a beth yw'r goblygiadau i dreftadaeth ddiwylliannol, hunaniaeth leol, dealltwriaeth ymwelwyr a gwelededd yr iaith Gymraeg. Mae'r ymchwil yn debygol o gyfuno adolygiad o dystiolaeth pen desg, archwilio digidol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i roi sylfaen dystiolaeth gryfach i Cadw a Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi yn y dyfodol.

Canlyniadau disgwylidig y prosiect:

- Archwiliad o dystiolaeth, ymchwil a phrosiectau presennol sy'n ymwneud â newid enwau topograffig yng Nghymru.
- Archwiliad sy'n canolbwyntio ar ddaearyddiaeth o enghreifftiau lle mae nodweddion topograffig yn cael eu henwi, eu hailenwi neu eu cyfeirio atynt gan enwau amgen.
- Ychwanegu enghreifftiau newydd at y sylfaen dystiolaeth newid enw presennol.
- Teipoleg o wahanol fathau o newid enwau, gan gynnwys enwau Gymraeg, enwau Saesneg, cyfieithiadau, enwau hanesyddol amgen, enwau llafar ac enwau sydd newydd eu bathu.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys cymunedau lleol, defnyddwyr hamdden, rhanddeiliaid twristiaeth a dehongli, a sefydliadau sy'n gweithio ym maes diogelu neu hyrwyddo enwau lleoedd.
- Amserlenni astudiaeth achos sy'n dangos sut mae enwau answyddogol neu amgen yn dod i'r amlwg, yn cylchredeg ar-lein ac all-lein, yn ennill gwelededd, ac o bosibl yn dod i eistedd ochr yn ochr â neu ddisodli enwau Gymraeg swyddogol neu hanesyddol.
- Archwiliad digidol a chyfryngau sy'n canolbwyntio ar sut mae enwau amgen yn ymddangos mewn cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau mapio, blogiau, gwefannau twristiaeth, arweinlyfrau a sylw yn y wasg.
- Asesiad o effeithiau diwylliannol, ymarferol, trwy brofiad a ieithyddol newid enw topograffig.

Pa sgiliau sydd eu hangen arnom?

Rydym yn croesawu unigolion sy'n gallu dod â sgiliau ymchwil cymhwysol cryf i'r rôl:

- Mae'r Gymraeg yn hanfodol.

- Profiad o archwilio, adolygu a chrynhoi ffynonellau tystiolaeth, megis ffynonellau academiaidd, polisi, digidol, cyfryngau neu weinyddol.
- Sgiliau dadansoddol cryf, gyda'r gallu i nodi patrymau, bylchau a materion sy'n dod i'r amlwg mewn sylfaen dystiolaeth sy'n datblygu.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig ac ysgrifennu adroddiadau a'r gallu i gyflwyno canfyddiadau'n glir ar gyfer cynulleidfaoedd polisi a'r rhai nad ydynt yn arbenigo.

Amserlenni'r lleoliad

Bydd y lleoliad yn para am gyfnod o 3 mis. Disgwylir i'r lleoliad ddechrau rhwng Tachwedd 2026 a Ionawr 2027.

Bydd y dyddiad dechrau yn cael ei drafod â'r ymgeisydd llwyddiannus ac efallai y bydd rhywfaint o hyblygrwydd yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Cyllid a threuliau

Mae'r cyfle hwn ar agor dim ond i fyfyrwyr a ariennir drwy gynllun Ysgoloriaeth Ymchwil Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (a ddyfernir ers mis Hydref 2024) y mae'n ofynnol iddynt gwblhau lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer. Mae'r lleoliad yn ddi-dâl, fodd bynnag, byddwch yn parhau i dderbyn eich ariantol ESRC. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gallu talu unrhyw gostau adleoli sy'n gysylltiedig â'r lleoliad.

Gellir hawlio costau teithio a chynhaliaeth rhesymol yr eir iddynt wrth gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, yn amodol ar gytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad ac yn unol â Pholisi Teithio a Chynhaliaeth Llywodraeth Cymru.

Trefniadau gweithio

Oriau gweithio Llywodraeth Cymru yw 37 awr yr wythnos, 7 awr 24 munud y diwrnod ar gyfartaledd. Gyda chytundeb ymlaen llaw â goruchwyliwr y lleoliad, efallai y byddwch yn gallu gweithio oriau hyblyg yn unol ag arferion Llywodraeth Cymru. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru yn rhan-amser, efallai y bydd y lleoliad hwn ar gael yn rhan-amser dros gyfnod hwy, i'w negodi rhwng Llywodraeth Cymru a'r ymgeisydd llwyddiannus. Os hoffech gael eich ystyried ar sail ran-amser, dylech nodi'r oriau gweithio a ffefrir ar y ffurflen gais.

Rhagwelir y bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio mewn ffordd hybrid rhwng y cartref ac un o swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod y lleoliad. Gall hyn newid, gan ddibynnu ar bolisi Llywodraeth Cymru. Bydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau gweithio yn cael eu trafod â'r ymgeiswyr llwyddiannus.

Gofynion cenedligrwydd a fetio diogelwch

I fod yn gymwys ar gyfer y lleoliad hwn yn Llywodraeth Cymru, rhaid bodloni [Rheolau Cenedligrwydd y Gwasanaeth Sifil](#). Gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys cyn gwneud cais. Ni fydd y rhai nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gallu ymgymryd â lleoliad.

Bydd hi'n ofynnol i ymgeiswyr llwyddiannus gael eu fetio gan Lywodraeth Cymru (mae hyn yn berthnasol i staff dros dro ynghyd â staff parhaol). Bydd hyn yn cynnwys cwblhau ffurflen gais gwiriad y Safon Ddiogelwch Safonol ar gyfer Personél (BPSS) a Holiadur Diogelwch.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect lleoliad hwn, dyma'r manylion cyswllt: Ceri Thomas, Uwch-reolwr Gwaith Ymchwil a Gwerthuso, Cadw
ceri.thomas2@gov.wales

Os hoffech wybodaeth am gyfleoedd lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer yn Llywodraeth Cymru, cysylltwch â:

James Carey, Pennaeth Cynllunio Gweithlu a Safonau Proffesiynol Ymchwil
Gymdeithasol y Llywodraeth
james.carey@gov.wales

Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill ynglŷn â Lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer, cysylltwch â:

Sian Shepherd yn Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru
sns18rzj@bangor.ac.uk